# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 150(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau (5 munud)

**NNDM8316** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Peredur Owen Griffiths (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn lle Luke Fletcher (Plaid Cymru).

**NNDM8317** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol yn lle Heledd Fychan (Plaid Cymru).

**NNDM8318** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Heledd Fychan (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Sioned Williams (Plaid Cymru).

**NNDM8319** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Rhun ap Iorwerth (Plaid Cymru).

**NNDM8320** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Luke Fletcher (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru).

**NNDM8321** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Adam Price (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle Peredur Owen Griffiths (Plaid Cymru).

**NNDM8322** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Adam Price (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn lle Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru).

## Cynnig i Ethol Aelod i Gomisiwn y Senedd (5 munud)

**NNDM8324** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 7.9, yn penodi Adam Price (Plaid Cymru) yn aelod o Gomisiwn y Senedd.

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diweddariad ar Ddatblygu'r Gweithlu Ôl-16

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Ddiogelwch Adeiladau

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU'

(30 munud)

## 7 Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

(5 munud)

**NDM8311** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael

(15 munud)

**NDM8310** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Caffael sy'n ymwneud ag ymchwiliadau gwahardd, gwaharddiadau oherwydd diogelwch cenedlaethol, atal a diwygiadau technegol eraill, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2023 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Y Bil Caffael

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Saesneg yn unig)*
Ymateb Llywodraeth Cymru

## 9 Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-2024

(15 munud)

**NDM8298** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth, 13 Mehefin 2023.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

(vi) manylion am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 10 Dadl: Cysylltiadau Addysg â Chyflogwyr

(60 munud)

**NDM8309** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad Hefin David AS, 'Pontio i Fyd Gwaith: Adroddiad i Lywodraeth Cymru'.

2. Yn cydnabod rôl addysg wrth ddarparu'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar ddysgwyr yng Nghymru er mwyn ymateb i ofynion economi Cymru.

Pontio i Fyd Gwaith: Adroddiad i Lywodraeth Cymru

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu na ddylai'r baich ariannol ar gyfer prentisiaethau gradd ddisgyn ar yr unigolyn ac y dylai pob math o addysg fod yn rhad ac am ddim.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 29/06/2023 i'w hateb ar 04/07/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### PRIF WEINIDOG

1 **Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ59794 **(e)**

Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i wella economi Gorllewin De Cymru?

2 **Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ59792 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu sgiliau yn y diwydiant ynni adnewyddadwy?

3 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

OQ59809 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth a phartneriaid eraill ynghylch gorddefnyddio meddyginiaeth bresgripsiwn?

4 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ59785 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi arloesedd ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru?

5 **Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ59801 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am greu'r canllawiau trawsrywedd newydd ar gyfer ysgolion?

**Buffy Williams** *Rhondda*

6 OQ59812 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru o ran lliniaru llifogydd ym Mhentre yn dilyn storm Dennis?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

7 OQ59781 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd ym Mlaenau Gwent?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ59802 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod y GIG yn Nwyrain De Cymru yn addas i'r dyfodol?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

9 OQ59808 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu digwyddiadau mawr i Gymru?

**Ken Skates** *De Clwyd*

10 OQ59770 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o werth digwyddiadau diwylliannol rhyngwladol i Gymru?

**Hefin David** *Caerffili*

11 OQ59810 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio taliadau rheoli eiddo ac ystadau y mae trigolion ystadau tai preifat yn eu talu?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ59811 **(e)**

Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i wella mynediad at ofal sylfaenol yng Ngorllewin De Cymru?